CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 17, 2015

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth, Mawrth 17, 2015 am 7:30 o'r gloch.

Presennol Cynghorwyr: Peredur Jenkins (Cadeirydd), Huw A. Evans, Mordaf Roberts, Emlyn Roberts, Gerallt Griffith, Rhun Prys Jones, Meurig Ashton a Barry Jones. Hefyd Henry M. Edwards.

1.Croeso'r Cadeirydd

Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Nid oedd ymddiheuriadau.

3. Datgan diddordeb.

Roedd Peredur Jenkins, Huw A. Evans ac Emlyn Roberts yn datgan diddordeb ynglŷn â adolygu ysgolion cynradd.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 17, 2015

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 17, 2015

Eitem 7.c. Bydd y wefan yn ddwyieithog. Os bydd angen eitem yn Saesneg mae rhaid rhoi gwybod i Elfed ap Gomer neu'r Clerc.

Penderfynwyd i Peredur Jenkins cysylltu ag Elfed ap Gomer i newid enw'r wefan.

Eitem 8.a. Mae'r Clerc yn ddiolchgar i Rhun Prys Jones am baratoi llythyr ar y mater.

Eitem 10.a. Llythyr ateb (24/2/015) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwybod bydd gwaith o glirio'r coed yn dechrau ar Mawrth 2 ac yn ei gwblhau canol mis Mehefin. Bydd Mr Aled Thomas a Mr Wild, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn rhoi gwybod i'r trigolion sut mae'r gwaith yn symud ymlaen.

Anfonwyd llythyr hefyd gan Peredur Jenkins i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Roedd erthygl ar dudalen blaen Cambrian News, rhifyn 26/2/2015, yn rhoi sylw i'r mater. Hefyd roedd eitem am y mater yn y Daily Post, ac ar Newyddion S4C ar 27/2/2015 gyda Peredur Jenkins yn rhoi'r hanes.

6. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Rhoddwyd sylw i Rybuddion Statudol sydd wedi cael eu cyhoeddi ynglŷn ag Ysgolion Dalgylch y Gader. Gweler eitem 7.f.

b. Rhoddwyd sylw i welliannau sydd am gael eu gwneud i ffordd A470 yn Dolgellau. Gweler eitem 7.r.

7. Gohebiaeth

a. Llythyr ((19/02/2015) oddi wrth Papur Llafar y Deillion Dolgellau a'r Cylch yn diolch am ein rhodd o £50.

b. Llythyr (19/02/2015) oddi wrth Her Gwynedd, Cyngor Gwynedd yn diolch inni gymryd rhan yn yr arolwg Her Gwynedd. Mae cofnodion o beth gafwyd ei ddweud yn y cyfarfodydd ar www.gwynedd.gov.uk/hergwynedd

c. Llythyr (18 Chwefror 2015) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol Etholiad, Cyngor Gwynedd. Amgáu mae posteri am lenwi sedd wag yn Ward Machreth.

Rhoddwyd y posteri ar yr hysbysfyrddau. Cawn wybod y canlyniad wedi 20 Mawrth, 2015.

Yn ôl manylion Cyngor Gwynedd, mae angen 4 Cynghorwr yn Ward Brithdir (3 sydd presennol) ac 8 yn Ward Machreth (7 sydd presennol).

Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cofrestru, Cyngor Gwynedd mae angen llenwi un sedd yn Ward Brithdir ac un yn Ward Machreth.

ch. Llythyr (19/02/2015) oddi wrth Clwb Ffermwyr Ifanc yn diolch am ein rhodd o £200.

d. Llythyr (19/02/2015) oddi wrth Pwyllgor Apêl Cylch Dolgellau - Sioe Frenhinol Cymru am ein rhodd o £250.

dd. Llythyr (22 Chwefror, 2015) oddi wrth Cymdeithas Undebol Machreth. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

e. Llythyr ((23 Chwefror 2015) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Rhyd-y-main yn diolch am ein rhodd o £500.

f. Llythyr (Mawrth 2015) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Llanfachreth yn diolch am ein rhodd o £500.

f. Llythyr (25/2/2015) oddi wrth Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd. Yn dilyn ymgynghoriad statudol ar ddyfodol ysgolion dalgylch Y Gader, mae Cabinet y Cyngor wedi penderfynu i gau Ysgol y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Brithdir, Ysgol Machreth (Llanfachreth), Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd, Ysgol Friog, Ysgol Clogau (Bontddu) ac Ysgol Ganllwyd ar 31 Awst 2017 a sefydlu Ysgol Dalgylch Dilynol 3-16 cymunedol cyfrwng Cymraeg ar safleoedd ysgolion presennol Ysgol y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Ieuan Gwynedd, Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd ac Ysgol Frog ar 1Medi 2017.

Yn dilyn y penderfyniad hwn, fe fydd Rhybuddion Statudol yn cael eu cyhoeddi 25 Chwefror 2015. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion drwy roi gwybod i Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon Gwynedd, LL55 1SH, cyn 25 Mawrth 2015.

ff. Llythyr (24/2/2015) oddi wrth Pwyllgor Llên y Llannau yn diolch am ein rhodd o £50.

g. Tysysgif odd wrth Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein rhodd o £200.

h. Llythyr (23/2/2015) oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Cylch a'r Gororau yn diolch am ein rhodd o £200.

i. Llythyr (24/2/2015) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod gwaith o godi wal gynnal a wal derfyn wrth Bryncoedifor ar ffordd A494.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Gwasanaeth bod cerbydau yn cael gweld y ffordd A494 yn glir ar y gyffordd wrth ddod o Bryncoedifor.

j. Llythyr (24/2/2015) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Rhydygorlan yn diolch am ein rhodd o £500.

l. Llythyr (2/2/2015) oddi wrth Ffederasiwn clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £250.

m. Llythyr (27/2/2015) oddi wrth Theatr Bara Caws yn gwahodd y Cadeirydd i ragolwg 'Pum Cynnig i Gymro' yn Theatr Fach, Dolgellau ar 12/3/2015 am 7:30.

n. Llythyr (09/03/2015) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Llwybrau Troed Cyhoeddus rhifau 14,16,19 ,31 a 56 ar gau dros dro am gyfnod o chwe mis o 1/4/2015

p. Llythyr (9/3/2015) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn rhoi gwybod mae eu hadroddiad blynyddol ar gael ar http://gov.wales/irpwsub/home/publication/2015-16/annual-report-2015-16/?lang=cy

r. Llythyr (12/3/2015) oddi wrth Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod bydd cylchfannau yn cael eu rhoi ar gyffyrdd A470/A494 ac A470/A493. Bydd y gwaith yn cael ei wneud dechrau 2016 ac yn ei gwblhau gwanwyn 2017. Yn y cyfamser bydd goleuadau traffig dros dro yn parhau.

Penderfynwyd diolch iddynt fod gwaith am gael ei wneud i wella'r cyffyrdd, a rhoi sylw iddynt mae angen gwelliant i'r cyffyrdd sydd wrth Trem-hyfryd a Ffridd Arw oherwydd mae damweiniau wedi digwydd ar rhain hefyd.

s. Llythyr (2/2015) oddi wrth BT Payphones yn gofyn a oes gennym ddiddordeb prynu Ciosg lliw coch BT am £1.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i) Cais NP5/54/295A. Adnewyddu caniatâd cynllunio ar gyfer mast 14.5m o uchder, caban offer a'r holl ddatblygiad cysylltiedig. Ar gyfer mast 14.5m uchder momnopole mobile comm, Gwanas Farm (TMO), Dolgellau .

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

ii) Cais NP5/54/36G. Adnewyddu caniatâd cynllunio NP5/54/36C ar gyfer mast 10m o uchder, bwlch cyfarpar a datblygiadau cysylltiedig. Jones Barn, Beudy, Coed Rhos Lwyd, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

iii) Cais NP5/54/291A. Adnewyddu caniatâd cynllunio NP5/54/291 ar gyfer mast 15 m o uchder, adeilad cyfarpar a datblygiadau cysylltiedig. Ar gyfer 15m uchder monopole mobile commun, Tyddyn Llwyn, Fferm Caerynwch, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

b. Llythyr (9/3/2015) oddi wrth yr Awdurdod yn rhoi gwybod maent yn cynnal sesiwn gwybodaeth yn benodol i Gynghorau Cymuned ar 'Dynodiad awyr dywyll Eryri'. Bydd y sesiwn yn Tŷ Siamas dydd Mercher 22 Ebrill, 2015 am 5:45 a 6:30.

9. Materion Ariannol

a. Rydym wedi derbyn (04/03/2005) £430 oddi wrth Cronfeydd Cist Gwynedd, Cyngor Gwynedd am greu gwefan i'r Cyngor.

b. Balans yn Account Rhif 61402277 ar Chwefror , 2015: £1,134.77.

c. Balans yn y banc ar 29 Chwefror, 2015: £6,791.21.

10. Unrhyw fater arall

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen clirio coed sydd wedi syrthio ar ffordd Brynllin i Cwm Hesgian, Abergeirw.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen:

i. gwella ffordd 'Green Lane' Bwlch Goriwaered. Mae wedi cael ei ddifrodi gan draffig a dŵr.

ii. ysgubo a glanhau cwterydd ar ffordd o gyffordd A494 i ochr uchaf mynedfa i Arran Hall.

Llofnod: Dyddiad: